# Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 252 Pris £1 Mis Mawrth 2023



## Gwarant Archeb Barhaol — *Standing Order Mandate*

I'r Rheolwr — *To the Manager*

………………………………………. Banc/ Cymdeithas Adeiladu *Bank/ Building Society*

Debydwch o fy nghyfrif £10.00 ar y 3ydd o fis Mai bob blwyddyn gan ddechrau ar y 3ydd o Fai 2023 neu nes y byddaf yn eich hysbysu'n wahanol.

*Please debit £10.00 from my account on the 3rd of May annually starting on the 3rd of May 2023 or until I advise you to the contrary.*

Yn daladwy i: — *Payable to:*

| Banc | Enw'r Cyfrif | Rhif Didoli | Rhif y Cyfrif |
|---|---|---|---|
| Barclays | Cwm*ni* | 20-98-68 | 13980030 |

Enw(au) ar y Cyfrif — *Name(s) on the Account*

Cod Didoli ___--___ -- ___ *Sort Code*

Rhif y Cyfrif — Account Number

Eich Cyfeiriad — *Your Address*

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………

Cod Post/*Post Code* ……………………………… Rhif Ffôn/ *Phone No* ………………………

Llofnod/ *Signature:* ……………………………………… …. Dyddiad/*Date:*. ………………………

Dychweler y ffurflen hon, os gwelwch yn dda, i'r Trysorydd:

Please return to the Treasurer: Meirion Powell, 13 Heol Tyddyn, Caerffili CF83 1TG

NID I'R BANC/NOT TO THE BANK

**PWYLLGOR a SWYDDOGION**

*Ariennir yn rhannol gan* ***Lywodraeth Cymru***

**Cadeirydd:** Robert Dutt

**Trysorydd: Meirion Powell:** mpowell0@yahoo.com

**Golygydd:** Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

**Lluniau:** Mary Jones **Cynorthwy-ydd:** Jan Penney **Cofnodion:** Ann Lewis

**Gweplyfr/ Face book:** Papur Bro Cwmni **Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Dilys Williams

**Gwefan:** Menter Iaith Sir Caerffili.cymru/

**e-bost**: Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamarycwmni@yahoo.com

**Argraffir gan Tower Print, Bedwas**

# Teyrnged y Beirdd i Suzanne

**Ar Ymddeoliad Suzanne. Gorffennaf 2003**

Y mae i gwm ei hoff fam-gu Gymreig
a ymrodd i fynnu
cyfeillach rhai bach a bu
ei hôl ar bawb o'r teulu.

*John Glyn Jones 2003*

**Eisteddfod Bae Caerdydd 2018**

Pan oedd Suzanne yn ein canol, roedd bwrdd
Barddas yn llawn pobol
yn llawn o'r ddawn farddonol –
mae rhyw heth ar ei hôl.

*Twm Morys 2008*

**Cofio Suzanne**

O hyd gwyddem fod gwaddol Bro Hawen
yn ei breuo'n raddol,
y prynhawn sy'n poeri'n ôl
wae y briwiau boreol.

Idris Reynolds 2022

**Cofio Suzanne – gwraig a mam rinweddol**

Yn dy hedd, anrhydeddu – yr un hael
'run hardd i'w hedmygu,
nwyf aelwyd a'r gofalu
hi yw'r fam orau a fu.

*John Meirion 2022*

**I Dafydd Islwyn ac Angharad**

Os yw gwynt y gaeaf yn gafael heno
bydd Suzanne yn ddiogel
A daw hi adre'n dawel
yn yr hwyr â gwên ffarwel.

*Emyr Davies, Y Graig 2023*

**I Dafydd Islwyn ac Angharad**

Oherwydd bod Teifi'ch cariad yn llawn
o ddal llaw a siarad
yn eich galar, Angharad
byddi di yn gefen i'th dad.


*Ceri Wyn Jones 2023*

**Er Cof am Suzanne**

Ei dedfryd o hyd ydoedd – ei haelwyd,
Ei sêl drwy'r blynyddoedd;
Cawsai nerth yn ei gwerthoedd
A mam uwchlaw pob dim oedd.

*Elwyn Edwards 2023*

# Clive Gordon Betts 1943-2023



Tybed faint o fewnfudwyr a ddaeth i Gymru, gan ddysgu'r Gymraeg ac yna hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg ym mhob modd, gan gynnwys ei broffesiwn? Mae nifer yng Nghaerffili, ac un ohonynt oedd Clive Betts. Ganed ef, yr hynaf o bedwar plentyn yn Southampton, cyn symud i fyw yng ngorllewin Llundain. Tybiwyd y byddai yn cyrraedd coleg yr L.S.E. yn Llundain ac yn cael gyrfa ddisglair yn y ddinas honno, ond nid felly y bu. Gwawriodd ar Clive mai ei gyfnod fel myfyriwr oedd ei gyfle euraid i brofi diwylliant gwahanol, a ffoniodd Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, i geisio lle ar gwrs economeg yno. Felly y bu.

Cyrhaeddodd y coleg ger y lli, a sylweddoli bod angen iddo ddysgu'r iaith Gymraeg ac ymddiddori yn y diwylliant Cymraeg. Dyna oedd y cyfnod pan oedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn ymsefydlu, ac yn ei flwyddyn gyntaf cynhaliwyd protest Pont Trefechan, yn 1963. Yn fuan wedyn roedd protestiadau argae ddŵr Tryweryn, gyda Clive yn darganfod llu o gyfeillion gyda radicaliaeth newydd yn eu gyrru i herio'r gyfundrefn. Ymysg y myfyrwyr oedd Eleri Davies, a ddaeth maes o law yn briod iddo. Roedd Eleri yn olygydd y cyhoeddiad Cymraeg yn Aberystwyth, a Clive y papur Saesneg ei iaith. Ar ôl graddio, gwahoddwyd ef i weithio gyda'r wasg yng Nghaerdydd, a hynny'n ddechrau cyfnod hir a gwerthfawr gyda'r *Western Mail*. Lluniodd erthyglau difyr a theg am lu o destunau yn ymwneud â Chymru, ac yn arbennig trafododd y sefyllfa wleidyddol a diwylliannol yng Nghymru. Cyhoeddodd bedwar llyfr yn gan gynnwys ei lyfr arobryn '*Culture in Crisis'*.


Newidiwyd natur cynnwys y *Western Mail*, a diflannodd ei swydd fel canlyniad. Sefydlodd Clive ei hun fel cwmni annibynnol a pharhau gyda'i waith fel newyddiadurwr. Bu ei gyfraniad yn y maes yna'n eithriadol bwysig. Bu'n olygydd '*The Welsh Nation'*, papur Saesneg Plaid Cymru am gyfnod, gan ennill parch pob plaid wleidyddol i'w wrthrychedd a'i dreiddgarwch unplyg. Dywedodd Vaughan Roderick yn yr angladd fod Clive wedi llwyddo i gadw'r drafodaeth am annibyniaeth Cymru yn fyw ers 1979, a mawr yw dyled y genedl iddo am wneud hynny gydol ei gyfnod newyddiadurol. Ni fyddai'n ceisio sylw iddo'i hun, ond roedd ei daerineb a'i drylwyredd yn ddiarhebol. Ysgrifennai yn ddifyr, gydag arddull hylaw ac addysgiadol. Parchai bob un, er nad oedd yn ymatal rhag dweud ei ddweud, pwy bynnag oedd yn rhan o'r drafodaeth dan sylw. Ei wythnos bwysicaf oedd wythnos ei benblwydd ac wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol. Byddai yno gyda'r cyntaf, bob bore, a chyda'r olaf i adael. Trefnai ei ddydd yn ofalus a gwrando ar ddatganiadau pob math o gyrff.

Symudodd i fyw yng Nghaerdydd ar ôl priodi, gan fyw yn Rhiwbeina. Ganwyd Aled, eu plentyn cyntaf, ond nid oedd modd iddo gael ei dderbyn yn yr Ysgol Gynradd Gymraeg, gan nad oedd ei ddau riant yn medru'r Gymraeg. Er bod y rheol hon wedi newid yn llwyr bellach, roedd gan Clive gryn gydymdeimlad gyda'r amcan. Serch hynny, roedd y Cymro mabwysiedig hwn am i'w fab gael addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Deallodd bod Ysgol Gymraeg Caerffili yn derbyn disgyblion heb fynnu bod angen i'r ddau riant fod yn ddwy-ieithog. Symudodd y teulu o'r Rhiwbeina i Mornington Meadows, gan gychwyn eu perthynas gyda thref Caerffili a Chwm Rhymni. Yn fuan ganwyd Catrin, eu hail blentyn, ac roedd Clive yn falch o lwyddiannau'r ddau. Mae Aled ar staff y Llyfrgell Genedlaethol ac y mae Catrin yn Bennaeth Cerdd yn Ysgol Uwchradd Gymraeg y Fro. Ymfalchïai Clive ac Eleri yn eu hwyrion, sef Ela Mai ac Efan.

Roedd gwybodaeth Clive am drenau yn ddihysbydd, ac ar ôl symud i Pentwyn, Enau'r-glyn, cerddai'n ddyddiol o'i gartref i'r orsaf. Roedd hyn yn bleser ac yn egwyddor iddo. Yn yr un modd, mwynheai'r teulu deithio yn helaeth, a byddai Clive wedi ymchwilio ardal y gwyliau yn drwyadl. Roedd rhychwant ei ddileit cerddorol yn eang hefyd, o'r gwerin i'r clasurol, o'r Cymreig i'r byd-eang. O bob diddordeb, roedd ei ddiddordeb mewn pobl a'i hamgylchiadau yn gweu y cyfan ynghyd. Ni chwenychai fod o flaen y camera teledu, ond roedd ei wên gynnes a'i gyfarchiad didwyll yn adrodd cyfrolau. Bu achos ac amgylchiadau Cymru yn bwysig iddo gydol ei oes ers graddio yn ei hoff Aberystwyth, gan mai yno yr ymwreiddiodd yn y diwylliant hwn a roddodd iddo flas ar fyw.

*Y Parch Denzil I. John*

# Haydn Griffiths 1930 – 2023



Mae yna hen ddywediad sy'n honni, "Gallwch fynd â'r dyn allan o Gwmtwrch Isaf, ond allwch chi ddim mynd â Chwmtwrch Isaf allan o'r dyn!" Ac mae hynny'n sicr yn wir am Haydn a fagwyd yn ardal glo caled Cwm Tawe, lle ganwyd ef ar y 31ain o Fawrth 1930.

Â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddo mynychodd Ysgol Pantteg. Synnwyd yr Haydn ifanc, a'i holl deulu, wrth iddo lwyddo pasio'r 'Scholarship' o ysgol y pentref i hawlio lle yn Ysgol Ramadeg Ystalyfera gan iddo ddioddef mor wael o'r fogfa. Arweiniodd yr holl absenoldebau i broses o hunan addysgu yn y cartref a gwelwn i hyn ddwyn ffrwyth wrth i ni ystyried ei yrfa lwyddiannus. Er bod Haydn yn unig blentyn magwyd ef gyda'i gefnder, Geraint, fel petai nhw'n frodyr. Yn wir, pum mlynedd yn iau, Haydn oedd ei eilyn a dyna'r rheswm pam daeth e'n athro ei hunan.

Ymunodd Haydn â'r Llu Awyr ym mis Gorffennaf 1948, a chafodd ei hyfforddiant dechreuol, y '*Square Bashing*', yn West Kirby. Yn ystod ei ddwy flynedd bu yn Henffordd, Wilmslow, a High Wycombe, pencadlys '*RAF Bomber Command'*, a'i unig hawl i amlygrwydd oedd iddo yrru *Wing Commander* o gwmpas. Ceisiodd yrru beic modur ond cafodd gyfarwyddiadau ar sut i'w yrru ond nid sut i'w stopio a glaniodd mewn ffos! Wedi gadael y Llu Awyr aeth i Goleg Hyfforddi Athrawon yng Nghaerllion o 1950-52. Yno cyflawnodd y gamp o rwyfo holl hyd yr Afon Tafwys!

Wedi gadael y coleg cafodd swydd athro peripatetig y Gymraeg yn Ysgol Stryd Eleanor ac Ysgol Y Santes Fair, Heol Clarence. Roedd ei fam-gu yn bryderus pan glywodd ei fod yn mynd i Tiger Bay, ond tawelodd Haydn ei hofnau drwy ddweud y byddai plisman yno i'w warchod. Yna, o Eleanor Street aeth i Gefn Onn ac yna i Bentrebane lle bu'n bennaeth Mathemateg o 1963 tan 1973. Roedd yn ddirprwy yn Trowbridge o 1973 tan 1975 cyn dod yn bennaeth Ysgol Glyncoed o 1975 tan ei ymddeoliad yn 1990. Roedd yn dwlu ar chwaraeon gan gefnogi gweithgareddau yn yr ysgol a'r gymuned yn enwedig Pêl-Droed Ysgolion Caerdydd lle bu'n hyfforddi a bu'n gadeirydd pwyllgor nofio'r ysgolion. Trefnodd nifer o glybiau gwyddbwyll mewn ysgolion gan gynnwys rhai a fynychwyd gan ei blant a'i wyrion a fe sefydlodd glwb gwyddbwyll Ysgol Gymraeg Caerffili.

Chwaraeodd fel mewnwr i glwb Ystalyfera ac i'r RAF ac wedyn dros Yr Eglwys Newydd. Mae sôn amdano, wedi priodi Margaret, yn troi allan mewn shorts gwyn, yr unig dro yn hanes y clwb i chwaraewr droi allan mewn trowsus byr, gwyn, difrycheulyd, llachar. Roedd bowlio yn gamp arall yr oedd yn ei fwynhau gan chwarae dros *Caerphilly Social* o 1990 tan 2005, a bu yn gapten yn 1999 gan gynrychioli Morgannwg yn 1995-96.

Cyfarfu Haydn â Margaret pan oedd hi'n nyrsio yn yr Infirmary yng Nghaerdydd a'i ffrindiau Phyllis ac Irene gyflwynodd y ddau - y tu allan i Woolworth, Heol y Frenhines! Ar eu hoed gyntaf ymunodd Phyllis ac Irene â nhw. Roedd Haydn am ddangos iddyn nhw le'r oedd e'n athro yn Eleanor Street lawr yn y Dociau yn Tiger Bay. Neidiodd y pedwar ar fws troli gan fwynhau taith o gwmpas yr ardal.

Priododd Margaret a Haydn yn 1956 a chyfoethogwyd y teulu pan ganed eu tri mab, Huw a'r efeilliaid, Alun a Hywel. Pan symuodd y teulu i stâd Tŷ Isaf roeddent ymhlith y cyntaf i fyw yno. Roedd Haydn yn ŵr, tad a thad-cu cariadus, hael a charedig. Gwnâi'n sicr o wneud popeth oedd yn iawn a chyfiawn ar eu cyfer. Ymfalchïai yn ei blant, ei wyrion, Rhiannon, Catrin, Aled, Rhodri a Leah a'i orwyrion, Noah a Callie. Carai ei wyrion y tu hwnt i eiriau ac mewn gwersi gwaith saer gwnaeth focsys i storio eu teganau, garejys a thai doliau. Mae cymaint o atgofion hapus, yn arbennig iawn y 50 mlynedd a dreuliwyd yn y garafán yn Aberaeron.

Hoffai Margaret a'r teulu fynegu eu diolch i'r staff meddygol yn Annwylfan a wardiau Penallta a'r Uned Asesu Feddygol am y gofal a'r gefnogaeth a gafwyd gan Haydn a nhw yn ystod ei amser yn yr ysbyty lle bu farw'n heddychlon gyda Margaret wrth ei ochr.

*Karen Griffiths*

# "Gan Brynu'r Amser"





Yn 1968 sefydlodd Trefor a Gwyneth Morgan Ysgol Glyndŵr. Am hanes dechreuad yr ysgol fel y dywed Yr Athro Stephen J. Williams, "gwell rhoi'r hanes yng ngeiriau Mrs Morgan ei hun" a dyma nhw....

"Am gyfnod o wyth mlynedd yn rhinwedd fy swydd yn Ysgrifennydd Talaith y De, Undeb Rhieni Ysgolion Cymraeg, bûm yn ymgyrchu dros gael Ysgol Uwchradd Gymraeg i wasanaethu Gorllewin Morgannwg, a llwyddo i gasglu dros chwe chant o enwau plant yr oedd eu rhieni'n awyddus iddynt fynychu'r cyfryw ysgol. Oherwydd cyndynrwydd yr Awdurdod Addysg dechreuodd Trefor a minnau goleddu'r syniad o sefydlu Ysgol Uwchradd Breswyl.

"Un diwrnod, daeth y Parchedig Ifan R. Williams, gweinidog gyda'r Bedyddwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr, i'n gweld, a dweud fod adeilad addas i fod yn ysgol ar werth yn ymyl Trelales. Penderfynwyd defnyddio unrhyw elw gan y cwmni busnes i brynu'r adeilad." Hen blasty mawr o'r enw Bryn Tirion oedd yr adeilad a ddaeth yn gartref i Ysgol Glyndŵr. Prynwyd e wedyn gan Fudiad Efengylaidd Cymru ac maent yno hyd heddi.

Yr oedd yn rhaid iddi fod yn ysgol breifat, bid sicr. Yr oedd y tŷ yn helaeth ac yn gwbl addas i gadw ysgol breswyl ynddo, gyda chaeau chwarae yn fanteision amlwg. Ni fu'n rhaid aros yn hir cyn i'r disgyblion cyntaf gael eu derbyn (rhai yn ddisgyblion preswyl ac eraill yn rhai dyddiol). Nid oedd amheuaeth mai Mrs Morgan â'i phrofiad fel athrawes a ddylai fod yn Bennaeth; cytunodd ymgymryd â'r swydd ond dim ond ar yr amod ei bod yn ddigyflog.



THE GLAMORGAN GAZETTE, FRIDAY, AUG. 25, 1967

**First All Welsh Boarding School**

SUMMERHILL PRIVATE SCHOOL, situated at Bryntirion, near Bridgend, is to become the first fully-Welsh boarding school, which will begin its first term in September, 1968.

A former Welsh miner turned insurance broker, Mr. Trefor Morgan, head of the Aberdare-based Undeb group of companies, has paid a reputed £40,000 for the property.

The school will provide

is an attempt to give leadership in this direction.

HOW IT STARTED

"There were not enough places to meet the demand at the Welsh Primary School in Bridgend," Mr. Morgan went on. "That is how the idea started. I am sure the County Council would not have made a Welsh school out of it."

Mae Gwyneth Morgan yn mynd ymlaen i ddweud: "Yr oedd rheswm arall; blinem am fod y disgrifiad "ysgol ddwyieithog" yn prysur ddisodli'r enw gwreiddiol, 'Ysgol Gymraeg'; ac yn yr ysgolion uwchradd arweiniai hyn at bolisi o ddysgu llawer o bynciau, yn enwedig y gwyddorau, trwy gyfrwng yr iaith Saesneg. Felly, yr oedd gwir angen am ysgol uwchradd i ddysgu pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn hyn ddylem gofio yn ardal "Cwm*ni*", yw mai ein hysgol gyfun Gymraeg ni aeth i'r afael â'r gwendid hwn, flynyddoedd yn ddiweddarach pan sefydlwyd hi yn 1981 . Dywed y Dr John Lloyd, a fu'n athro Cemeg yn yr ysgol, "Cwm Rhymni oedd yr ysgol gyntaf i ddysgu pob pwnc, o flwyddyn 7-13 drwy gyfrwng y Gymraeg, fel polisi bwriadol gan Huw Thomas, prifathro cyntaf yr ysgol. Mewn nifer o ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill roedd cyfrwng Saesneg yn dod yn fwy amlwg wrth i'r arholiadau nesáu. Cwm Rhymni yn sicr oedd yr ysgol gyntaf i gynnig y tri phwnc gwyddoniaeth yr holl ffordd hyd at Safon Uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gen i gof bod un disgybl o'r garfan gyntaf wedi mynd ymlaen i Rydychen ac yn darlithio ym Mhrifysgol Lerpwl erbyn hyn."

Yn nwylo medrus Trefor roedd y gofal am y gwaith gweinyddol. Daeth Mr a Mrs Dolben a'u teulu o Gapel Celyn i ymgartrefu yn yr adeilad er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith ac am flwyddyn bu Mrs Morgan yn teithio rhwng Ystradgynlais a Threlales nes i'r teulu symud yno i fyw erbyn i'r ysgol gychwyn ar ei hail flwyddyn.

Buwyd yn ffodus i gael pobol o safon deilwng i geisio am yr ychydig swyddi yn y staff bychan o athrawon, ac yn eu plith un Prifardd. Yn ei hunangofiant, 'Fy Nghawl fy Hun', mae Gerallt Lloyd Owen yn adrodd ei hanes yn dod yn un o athrawon cyntaf Ysgol Glyndŵr newydd. Pan oedd cyngor Meirionydd am ei drosglwyddo o Drawsfynydd i Gorwen gwelodd hysbyseb am athro ar gyfer adran iau'r ysgol yn Nhrelales.

"Tua'r un pryd ag y clywais am y bwriad i'm symud i Gorwen, darllenais yn *Y Cymro* fod y gŵr busnes Trefor Morgan wedi prynu plasty ym Mhen-y-bont ar Ogwr gyda'r bwriad o agor Ysgol Gymraeg breifat. Sgrifennais yn syth bin i fynegu fy niddordeb ac i ofyn a gawn i gyfle i ymgeisio pan fyddent yn penodi athrawon. Mae'n wir fod gen i gymhellion nad oedd a wnelont ddim oll ag addysg (roedd Pen-y-bont o fewn cyrraedd i Gaerdydd) ond ar yr un pryd roedd gen i ddiddordeb dilys yn y syniad o ysgol breifat Gymraeg. Ymhen hir a hwyr cefais alwad ffôn gan Mrs Dorothy Dolben, trefnydd Cronfa Glyndŵr, yn fy ngwahodd i gyfweliad ym Mhen-y-bont. Dau ohonom yn unig oedd dan ystyriaeth ar gyfer dosbarth uchaf yr adran gynradd a Mrs Gwyneth Morgan, Mrs Wendy Richards, Yr Athro Stephen J. Williams a'r Parch Ifan R. Williams oedd yn ein cyfweld. Roedd Mrs Dolben hefyd yn bresennol ond doedd ganddi ddim pleidlais. Sut bynnag, pan ganfuwyd bod y bleidlais wedi hollti'n gyfartal, tri o blaid a thri yn erbyn y naill a'r llall ohonom, fe alwyd arni hi i droi'r fantol ac, am ryw reswm fe wnaeth hynny o'm plaid i. Ac felly, ym Medi 1968 mi fyddwn yn athro yn Ysgol Glyndŵr yn hytrach nag yng Nghorwen ym Mro Glyndŵr."

Tystia'r cyn-ddisgyblion iddynt gael eu trwytho'n llwyr yn hanes eu gwlad gan ddysgu cynganeddu gan Gerallt. Roedd peth ansicrwydd am yr hyfforddiant mewn Mathemateg! Mae Sali Wyn yn cofio fod Gerallt yn arlunydd gwych ac mae hi'n ei gofio'n annog y plant i dynnu lluniau o'r machlud. Cofia hi i un o'r disgyblion, Sion Edwards, ennill yn Eisteddfod yr Urdd am ei gampwaith.

Mae Mererid Morgan yn cofio bod Gerallt wedi cychwyn comic 'Yr Hebog' tra yn yr ysgol ac roedd y disgyblion yn cael y pleser o ddarllen y comic i sicrhau ei addasrwydd cyn ei gyhoeddi! Hefyd roedd e'n defnyddio cardiau cartŵn i'w hysgogi i lunio llinellau o gynghanedd. Un cartŵn anfarwol oedd llun o iâr ac arwyddbost Y Barri: 'Yr iâr yn mynd i'r Barri'- cynghanedd lusg ! Mererid hefyd yn cofio dod i'r ysgol ar fore Llun yn Bentley tad Siân Ayres Jones - perchennog ffatri beiriannau pobi Mono bakeries yn Abertawe. Roedd e bob amser yn gwrando ar "*Letters from America*"!

Yn ogystal â bod Gwyneth Morgan yn athrawes yn yr ysgol, roedd Wendy Richards, mam Gareth a Nia, yn dysgu yn y Meithrin. Roedd Mrs Garlick, mam Iestyn, yn dysgu Ffrangeg i'r plant. Roedd Hywel Davies o Rydaman yn dysgu Ffiseg a dysgodd Elin Garlick Iseldireg hefyd gan ei bod wedi byw yn y wlad! Athrawon ychwanegol y dylid sôn amdanynt yw Miss Valmai Pugh a Miss Rita Bohana. Roedd Mrs Gwenda Williams (gwraig Ifan R) yn dysgu hoci iddynt!

Mam Nia Beynon a Mags Griffiths, Megan Howell, oedd ysgrifenyddes yr ysgol. Credai Nia iddi gael ei haddysg yno am ddim oherwydd hyn. Gwelir bathodyn yr ysgol uchod ac roedd y merched yn gwisgo hetiau glas steil 'bowler' a ffrogiau o wlanen draddodiadol Gymreig.

Roedd Sali Wyn a'i brodyr Dyfrig a Dewi yn blant i Jac Harries, yr athro Gwyddoniaeth ac yntau yn rhan o fusnes Trefor Morgan yn Aberdâr yn argraffu ar gyfer Yswiriant Undeb. Roedd eu mam yn chwaer i Gwyneth Morgan ac mae nifer o atgofion gan Sali Wyn am yr ysgol, er taw dim ond blwyddyn buodd hi yno pan oedd hi'n ddeg oed. Ai'r ffaith mai ei thad oedd yr athro Gwyddoniaeth l oedd wedi ei harwain i gredu iddi gael ei haddysg am ddim?

Dywed hefyd mai rhai o'i chyfoedion oedd: Siân Major , Siân Aires Jones, Richard Hopkin, Mererid Morgan a Catherine Davies. Roedd Aled Roberts, brawd Elin Wyn, yno hefyd. Roedd brodyr David Emanuel yn mynychu'r ysgol- Ceredig, Meurig, Aeron a Geraint. Roedd 11 o blant yn y teulu- 10 bachgen ac 1 ferch Margaret. Dywedir fod Mary-Lynne o Faesteg yn teithio i'r ysgol mewn Daimler!

***Ein diolchiadau i Nia Barrar, Nia Beynon, Mererid Morgan a'r Dr John Lloyd***

# Colli'r cêl - a cholli'r cyfan?

Tybed a yw rhai o ddarllenwyr "Cwm*ni*" yn cofio am y fforest o gêl oedd gen i yn yr ardd y llynedd? Mor wahanol yw pethau eleni! Plannais nifer o blanhigion cêl ar ddiwedd yr haf, fel ag o'r blaen, ond nid fforest o blanhigion llewyrchus sydd gen i erbyn hyn.



Roeddwn yn ofni y byddai ymdrechion y gath i balu o'u cwmpas - a'u gwrteithio - yn ormod i'r planhigion bach yn eu misoedd cyntaf. Ac felly y bu, er i fi geisio eu hamddiffyn trwy roi ffyn yn y pridd o'u cwmpas - a netin, a darnau o fieri a chelyn... Mae angen mwy na hyn i gyd i rwystro cath benderfynol, ac mae gen i gath benderfynol dros ben. Doedd dim byd yn ei rhwystro rhag diwreiddio'r planhigion bach. Byddwn i'n eu hail-blannu, ac ail godi eu hamddiffynfeydd - a'r bore wedyn, fel yn hanes Dinas Emrys, byddai'r cyfan wedi dymchwel a phlanhigyn bach diniwed arall wedi ei ddistrywio.

Ond mae un planhigyn bach styfnig wedi dal ei dir, er gwaethaf pawennau a phopeth: mae yma o hyd. Er ei fod mor fach ac mor bitw ei olwg, eto i gyd mae rhuddin yn y planhigyn bach hwn. Rhaid ei edmygu, ond derbyn hefyd na fydd yn llenwi sosban gyfan. I ddweud y gwir, dwi ddim yn meddwl y medraf ei fwyta erbyn hyn - rwy'n ei edmygu gymaint.

Ac wrth i fi edrych arno heddiw, sylweddolais fod natur wedi bod wrthi heb i fi sylwi. Rwy wedi bod yn gwylio - ac wylo - dros y cêl a heb sylweddoli bod rhywbeth arall yn tyfu'n iawn yn yr un cornel o'r ardd. Dyna gennin y brain (*hyacinths)* a blannais yn yr ardd y llynedd ar ôl iddynt orffen blodeuo yn y tŷ. Roeddwn i wedi anghofio amdanyn nhw, ond doedden nhw heb anghofio patrwm y tymhorau, a dyma nhw nawr yn codi eu pennau, yn blaguro a dechrau blodeuo.

Serch hynny, mae rhai o'r bylbiau cyndyn hyn yn amlwg wedi dioddef oherwydd y gath, a nawr, ar ddechrau'r cyfnod o osod yr ardd, rwy'n dechrau amau na fydd modd i fi dyfu llawer eleni. A ddylwn i roi'r gorau i'r frwydr yn erbyn y gath, gan adael fy ngardd i'w "gofal" hi yn unig?

**MERCHED y WAWR**

**Cwm Rhymni**

## Cinio Gŵyl Dewi

**Dydd Mercher, 15 Mawrth**

**1.00**

**Casa Mia, Caerffili**

**Cysylltwch â gaynorw555@gmail.com**

**Croeso i chi ymuno â ni.**

Ysgol y Gwyndy

Drama

## Gaeaf yn Troi'n Haf

**7:30**

Ebrill 26ain

Oedolion £5 Disgyblion Ysgol £2

# Plannu Coeden yn y Glowyr

Fore dydd Gwener Chwefror 17, plannwyd bedwen arian arbennig iawn yng ngardd Canolfan y Glowyr.



*Jenni Jones-Annetts, cadeirydd Bwrdd y Glowyr, yn croesawu pawb i'r Ganolfan.*

Anrheg oddi wrth y diweddar frenhines Elizabeth yr ail oedd y goeden hon, rhan o'r canopi gwyrdd a drefnwyd i ddathlu'r ffaith iddi deyrnasu am 70 mlynedd. Caiff coed eu plannu ledled gwledydd Prydain i gefnogi'r amgylchfyd naturiol ac mae coeden y Glowyr yn un o dair a ddaeth i ranbarth Gwent.

Daeth Arglwydd Raglaw Gwent, Robert Aitken, i blannu'r goeden a gwahoddwyd nifer o gefnogwyr y Ganolfan, yn arbennig ein grŵp garddio talentog, i'r achlysur. Braf oedd cael cwmni Maer Caerffili, y Cynghorydd Liz Aldworth, ac hefyd cynrhychiolaeth o'r ddwy ysgol gynradd agosaf, sef Ysgol y Castell ac Ysgol Cwrt Rawlin. Gobeithiwn y bydd y plant yn cofio'r achlysur ac yn cadw llygad ar y goeden wrth iddi dyfu.

# Archif

Un o ragoriaethau "Cwm*ni",* ein papur bro yw'r sylw a roddir i hanes ein cenedl ac, yn fwyaf arbennig, hanes ein bro. Y rheswm am hyn yw bod cymaint o'n darllenwyr wedi mynegi eu diddordeb yn eu hanes lleol drwy gyfrannu stôr o erthyglau i'n papur. Mae'r erthyglau wedi amrywio o ddelio ag unigolion enwog i fannu o bwys a sawl peth arall.

Ond erbyn hyn gwelwn fwy o werth byth i'r casgliadau hyn gan fod Llywodraeth Cymru bellach wedi dweud wrth ysgolion bod yn rhaid iddynt ddysgu hanes eu gwlad a'u cymuned i'w plant. Yr anhawster mwyaf sy'n wynebu ein hathrawon wrth fodloni'r galw hyn yw nad ydynt hwy wedi cael dysgu eu hanes eu hunain tra yn yr ysgol. A gallwn ni, drwy ein papur bro, fod o gymorth iddynt.

Rhai blynyddoedd yn ôl ar gyfer 'Tua'r Goleuni' ysgrifennwyd cyfres o wyth erthygl ar hugain am hanes sir Caerffili. Gosodwyd y rhain mewn cyfres yn dwyn y teitl "Ein Hanes Ni". Y gobaith oedd y byddai'r ysgolion yn casglu'r rhain a'u gweld yn ffynhonnell ddefnyddiol. Mewn ymateb i'r galw newydd am wybodaeth dechreuwyd ail gyhoeddi'r erthyglau hyn, fesul mis, nôl ym mis Medi. Gwelir rhif 6 am Gastell Caerffili yn y rhifyn hwn. Yn wir, derbyniwyd cais i gael y gyfres fel rhan o hyfforddiant Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a'r ysgolion cynradd sydd yn ei bwydo.

Er cyfleustra mae pwyllgor y papur wedi cytuno diweddaru'r erthyglau hyn a'u cynnwys mewn archif a fydd ar gael ar wefan y papur, drwy gymorth ein Menter Iaith. Lluniwyd archif o atgofion am ddatblygiad Ysgolion Cymraeg y sir eisoes a'u gosod mewn archif arall.

Y cam nesaf yw ymhel ag amryw erthyglau eraill am hanes lleol sydd wedi ymddangos ar hyd y blynyddoedd. Mae hon yn mynd i fod yn fwy o dasg gan y byddwn yn casglu gwybodaeth am feysydd amrywiol, o reilffyrdd a chamlesi i hen adeiladau, parciau, chwedlau a phentrefi diflanedig.

Tybed a fyddai gan rai o'n darllenwyr ddiddordeb mewn cynorthwyo â'r gwaith hyn?

## Chwaraeon

**Mae ein timau Pel Rwyd, pel droed, rygbi a rhedeg wedi bod yn brysur y tymor yma. Llwyddiannau anfer-thol yn y 4 maes. Mwy i ddod y tymor nesaf dwi'n siwr.**







## Perfformio

**Does dim stop wedi bod ar y corau y tymor yma chwaith. Wedi cystadlu yn Eisteddfod y Cymoedd. Perfformiad godidog yn Neuadd Dewi Sant i ddathu'r Nadolig. Canodd CC2 yn Ffair Nadolig Llancaiach Fawr, ac wedi derbyn gwahodiad i berfformio eto ar gyfer eu cinio Nadolig gan bo Menter Caerffili wedi mwynhau eu perfformiad gymaint. Gwasanaethau Nadolig i CC1,2 a 3 wedi creu naws Nadoligiadd ar draws yr ysgol. Mae cerddoriaeth i'w chlywed yn ein hysgol o hyd. Cafodd perfformiad y côr yn Neuadd Dewi Sant ei darlledu ar y radio Cymru ar Noswyl Nadolig ac ar Ddydd Nadolig.**






## Elusennau

**Rydym wedi gweithio unwaith eto gyda'r Lleng Frenhinol Brydeinig, gwerthodd Bl 6 gynnyrch i godi swm o £150 ar eu cyfer.**
**Daeth y Lleng i'n gwasanaeth hefyd i dalu teyrnged i'r holl bobl a frwydrodd dros ein rhyddid.**
**Trefnodd ein cyngor ysgol ras Pudsey ar gyfer dathlu diwrnod Pudsey. Cawsom lawer o hwyl ar yr iard a chodwyd dros £4000 .**









## Ffrindiau Cwm Gwyddon

**Mae'r Ffrindiau wedi bod ar waith trwy'r tymor yn trefnu ac yn casglu. Mae nhw wedi trefnu bore coffi i godi arian at elusen Felindre, wedi rhoi noson sinema ymlaen ac wedi trefnu Ffair Nadolig sydd wedi codi dros £800 i'r ysgol. Rydym mor falch o'n Ffrindiau yn gweithio'n galed er lles ein plant.**



## Tripiau

**Tri trip llwyddiannus y tymor diwethaf - yn dathlu diwylliant a hanes Cymru. Big Pit i Flwyddyn 5, Castell Rhaglan i flwyddyn 3 a'n Heglwys Gymraeg i Flwyddyn 1.**




# Yr Ysgol Newydd

**Mae'r adeiladwyr yn gweithio'n galed. Dyma'r wybodaeth diweddaraf sy'n dod gan ein cwmni adeiliadu.**

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
Sustainable Communities for Learning

Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon

## Andrew Scott Cyf, adeiladu dyfodol newydd i'r iaith Gymraeg


Mynedfa'r Gogledd

Andrew Scott Cyf yw'r prif gontractwr sy'n gyfrifol am gyflwyno'r adeilad newydd i Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon ar hen safle Ysgol Uwchradd Cwmcarn. Mae'r ysgol newydd yn cael ei hariannu ar y cyd gan yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru fel rhan o'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (wedi'i hadnabod fel Ysgolion yr 21ain Ganrif yng nghynt). Bydd yr adeilad newydd yn cymryd lle ysgol gwreiddiol Cwm Gwyddon a creu darpariaeth ar gyfer 420 o ddisgyblion, yn ogystal â ehangu cyfleusterau'r meithrin, creu 2 ddosbarth 'SEN' a 2 ystafell Uned Gofal Plant.

### Cwrdd ag aelodau'r tîm:



**Carl Edwards, Rheolwr Prosiect:** Rwy'n gyfrifol am oruchwylio cyflawniad y prosiect cyfan, gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i sicrhau bod yr ysgol newydd yn cyrraedd y safon uchaf bosibl.



**Katie John, Arweinydd Gwerth Cymdeithasol:** Yn ystod y misoedd nesaf, byddaf yn gweithio'n agos gyda'r ysgol i sicrhau bod y ddisgyblion yn cael bob cyfle i profi y byd adeiladu cyffrous. Byddaf hefyd yn gweithio gyda CBS Caerffili i sicrhau bod y prosiect yn creu effaith gadarnhaol yn lleol, trwy greu swyddi ac ymgysylltu â'r gymuned.

### Yr ysgol hyd yn hyn:

- **213 tunnell o dur wedi'i godi**
- **1148 tunnell o deunydd wedi'i gloddio o'r safle**
- **100% o'r deunydd â gloddiwyd wedi'i ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi**







# Cerdded llwybrau'r gorffennol yn y Bargod

Pan oeddwn i'n blentyn yn y 1960au, roedd Bargod yn dref brysur iawn. Roedd dau sinema yno, un bob pen i'r dre, caffis di-ri, yr Emporium urddasol yn eich denu i wario arian ar nwyddau o safon - a'r pwll a'i domen sbwriel yn dominyddu'r cyfan. Y pwll, a suddwyd yn 1897, oedd y rheswm dros dwf y dref, a thros brysurdeb ei siopau, sinemau, caffis a thafarndai. Roedd maint ac amlygrwydd y domen wedi ennill y llysenw "Everest" iddi yn yr ardal.

Ym Medi 1981, roeddwn i yn un o'r criw bychan o athrawon a gyrhaeddodd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ar ddiwrnod poeth o haf i agor y drysau i'r disgyblion cyntaf. Roedd yn brofiad bythgofiadwy, a hynny am sawl rheswm. Un ohonynt oedd sylweddoli bod Everest yn cael ei glirio, ar ôl i'r pwll gael ei gau yn 1977, a rhan o'r broses oedd cludo tunnelli o sbwriel heibio i'r ysgol...a'u gorchuddio wedyn gyda haen o ddom ieir...

Nawr yn Rhagfyr 2022 mae Everest a'i bwll wedi llwyr ddiflannu, ac mae cynlluniau'r cyngor i droi safle'r hen bwll a'i domen yn barc gwledig wedi eu gwireddu. Anodd iawn yw cofio golwg y lle pan oedd y pwll yn ei anterth, ond mae cyflwr truenus y siopau a'r busnesau eraill a fu mor llewyrchus chwech deg o flynyddoedd yn ôl yn dweud cyfrolau am y dyddiau a fu, ac am yr ergyd o golli unig ddiwydiant yr ardal.

Wrth gerdded trwy'r parc gwledig yn ddiweddar, sylweddolais fod hanes i'w ganfod yno o hyd - er bod angen cryn dipyn o gymorth i wneud hynny, oherwydd ychydig iawn o wybodaeth am y pwll a gewch oddi wrth hysbysfyrddau "gwybodaeth" y cyngor! Cewch fanylion am fyd natur, a sylwadau digon arwynebol am hanes y diwydiant glo yn yr ardal, ond mae'n amhosibl darganfod lleoliad safle'r hen bwll heddiw, heb sôn am y diwydiannau eraill oedd yn dibynnu arno - y gwaith nwy, yr orsaf drydan, y ffwrnesi golosg ac ati.



Ond o graffu ar dystiolaeth y tirlun, fe welwch olion hen, hen hanes yr ardal a'r diwydiannau oedd yn ffynnu yno cyn i'r pwll glo ddominyddu'r cwm. Mae nerth y llif sydd yn afon Rhymni yn amlwg iawn yn y gaeaf, ac os cerddwch wrth ei hochr i gyfeiriad y gogledd, fe welwch Nant Bargod yn ymuno â hi ar waelod rhiw serth Aberbargod. Cyn i ni ddysgu sut i feistroli stêm, trydan neu nwy, roedd nerth dŵr wedi ei ddofi i droi olwynion melinau ac roedd o leiaf tair melin ar hyd glannau afon Rhymni yn y dyddiau a fu, ac un arall ar lan Nant Bargod.

Efallai y bydd rhai o ddarllenwyr hŷn y papur hwn yn cofio'r hen enw ar y dafarn ar waelod rhiw Aberbargod. "The Gold Mine" oedd yr enw diwethaf arni - enw anghywir os bu un erioed! "Yr Hen Felin" oedd yr enw cyn hynny, ac mae'n amlwg os craffwch ar ochr yr adfail presennol, i hen felin ddŵr gael ei haddasu'n dafarn. Ac roedd y dafarn hon yn gartref i nythaid o feirdd ac i lawer o hwyl a nosweithiau llawen ganrif a rhagor yn ôl. Teulu'r Jamesiaid oedd yn ei chadw, a chanodd Evan James, awdur ein hanthem, gerdd o glod i ardd y felin. Mae'r gwahaniaeth rhwng ei atgofion a golwg y lle heddiw yn drawiadol. Mae'n agor:

*Ar lan Nant Bargod treuliais gynt*
*Flynyddau fy mabandod;*
*Mor hoff yw myned ar fy hynt*
*I weld fy hen breswylfod.*
*Chwaraeais filwaith gyda'r plant*
*Ar wastad waun y felin*
*A chyd-ymdrechu neidio'r nant*
*Gerllaw y domen eisin...*



Mae'n cofio wedyn *"yr ardd gynhyrchiol iawn/Gogyfer yr Hen Felin"* a'i frodyr Tom a Dan yn gofalu am y llysiau, gan ddisgrifio *"Dan a'i gôt yn wyn gan flawd"* sy'n awgrymu bod un o leiaf o'r hen felinau yn dal i weithio yr adeg honno. Cewch y gerdd ar ei hyd, a rhagor o gerddi am ein cwm ni yn llyfr rhagorol y diweddar Gwyn Griffiths, *Awdur Hen Wlad fy Nhadau: Cerddi Evan James* (Gwasg Carreg Gwalch, 2009).

# Noson yng Nghwmni Sioned Williams AS

Mor braf yw cael pleser cwmni cyn-ddisgyblion ein hysgolion Cymraeg yn ein cyfarfodydd! Cawsom gwmni Cathryn Charnell-White y tymor diwethaf, ac ym mis Chwefror daeth Sioned Williams AS atom. Ei thestun oedd ei gwaith fel Aelod Seneddol, ei hargraffiadau o'r sefydliad ei hun a'i gwaith yno, a'r llwybr a arweiniodd at hynny. Fel y cawn weld, cymrodd Sioned y camau cyntaf ar ei llwybr yma yng Nghwm Rhymni.



Yng Nghwmbrân cafodd Sioned ei geni, serch hynny, ac yno cafodd ei haddysg gynradd. Doedd dim ysgol uwchradd Gymraeg yng Ngwent yn ei hamser hi, ac felly roedd rhaid iddi dreulio awr ar y bws bob bore a nos er mwyn parhau gyda'i haddysg trwy'r Gymraeg yn Ysgol Cwm Rhymni. I'r rhai ohonom sy'n cofio'r ymgyrchu a'r dadlau dros addysg Gymraeg yn y 1970au a'r 1980au mae'n hyfrydwch heddiw gweld ffrwyth yr holl ymdrechion - y Cymry aeddfed, hyderus, rhugl eu Cymraeg a chadarn eu barn sy'n cyfrannu i bob agwedd ar fywyd y genedl, gan gynnwys cyfarfodydd Merched y Wawr!

Mae Sioned yn aelod o'r Senedd ers mis Mai 2021, ond serennodd mewn sawl maes cyn troi at wleidyddiaeth. Cafodd yrfa academaidd ddisglair yn Aberystwyth a derbyn gwobr goffa T. Glynne Davies i wneud diploma ôl-raddedig mewn newyddiaduriaeth yng Nghaerdydd. Naturiol oedd iddi fynd wedyn i weithio i adran newyddion y BBC, a thalodd deyrnged hyfryd i'n newyddiadurwyr profiadol - ac enwog - fu'n gefn iddi yn y dyddiau cynnar hynny. Daeth Sioned yn wyneb cyfarwydd ar ein sgriniau ar adeg gyffrous yn hanes Cymru a'r byd: disgrifiodd y profiad o gyflwyno'r newyddion ar noson refferendwm 1997*,* a hefyd ar ddiwrnod trychineb Medi 11, 2001.

Priododd yn ystod y blynyddoedd hynny a dechrau magu to newydd o Gymry yng Nghwm Tawe. Ymddiddorodd yn addysg ei phlant, fel y gwnaeth ei rhieni hi yn eu dydd, ac ym mywyd ei chynefin newydd yn yr Alltwen, Pontardawe. Daeth yn llywodraethwr yr ysgol gynradd ac yn gynghorydd yn y gymuned. Mae hi'n amlwg yn gefn i Fenter Iaith Cwm Nedd, ac yn un o'r rhai fu'n gweithio i sefydlu Tŷ Gwrhyd, y ganolfan Gymraeg ym Mhontardawe.

Datblygodd ei gyrfa broffesiynol hefyd, fel Swyddog Polisi Iaith Prifysgol Abertawe ac yna fel Rheolwr Cyfathrebu a Datblygu Canolfan Hywel Teifi yno, ac enillodd enw iddi ei hun fel adolygydd y celfyddydau. Bu'n feirniad cystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod yr Urdd a Gwobr Daniel Owen yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Ond parhaodd i ymddiddori mewn gwleidyddiaeth, a bu'n gweithio i Blaid Cymru hefyd. Bu Leanne Wood yn ddylanwad mawr arni, yn rhannol am eu bod yn dod o'r un math o gymuned, ac yn ymwybodol iawn o broblemau ein cymoedd ôl-ddiwydiannol a difreintiedig. Nid yw'n syndod bod Sioned yn dal i ymgyrchu dros y cymunedau hyn yn y Senedd - hi yw llefarydd Plaid Cymru dros gyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb ac mae'n aelod o'r pwyllgorau perthnasol yn y Senedd.

Serch hynny, roedd cyfeiriadau cyson Sioned at ei theulu, oedd yn hanu o Rymni ei hun, yn dangos yn glir o ble ddaeth y gwerthoedd sydd yn sylfaenol i'w gwaith a'u bywyd. Roedd y llun hyfryd ohoni a'i mam-gu yn dweud cyfrolau am y berthynas agos rhyngddynt. Er i'w rhieni golli'r Gymraeg, roedd cariad at eu hiaith, eu gwlad a'u cyd-ddyn yn sicr ganddynt, a gwerthoedd Cristnogol yw meini prawf y teulu hyd heddiw. Mae gan Sioned gyfuniad cyfareddol o ddidwylledd, brwdfrydedd a huodledd a swynodd ei chynulleidfa, ond enillodd eu calonnau wrth orffen ei chyflwyniad gyda llun o chwe Aelod Seneddol benywaidd Plaid Cymru - a nodi bod *dwy* ohonynt yn gyn-ddisgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni!

# Traddodiad Eisteddfodol ein Cymoedd

Hyfryd llynedd oedd gweld eisteddfod yn cael ei chynnal yn y Rhondda unwaith eto, ac ymfalchïwn yn llwyddiant ein heisteddfod ni yn y cwm hwn. Mae'r traddodiad eisteddfodol wedi cael ei adfer yn y Fenni hefyd. Wrth i ni edrych ymlaen at dymor eisteddfodau ysgol, a pharatoi at Eisteddfod yr Urdd, mae'n amlwg bod doniau a diddordeb yn yr ardal hon. Mae'n addo'n dda ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 2024 yn Rhondda Cynon Tâf!

Ond adeiladwn ar hen draddodiad, ac mae'n werth cofio i'r traddodiad hwnnw ddirywio yn gymharol ddiweddar. Roedd eisteddfodau'n cael eu cynnal yn gyson yma mewn i'r ugeinfed ganrif, ac mae tystiolaeth iddynt yn dyddio'n ôl i'r ddeunawfed ganrif. Cyfansoddodd Lewis Hopkin (c. 1708-71) gyfres o englynion i gyhoeddi eisteddfod yng Ngelligaer ym 1735. Mae'n agor gyda geiriau canmoliaethus:

*Prydyddion glewion galonau - parchus*
*Fo perchen y doniau,*
*Iawnwedd glod awenydd glau,*
*I nyddu cynghaneddau.*

*Arferwn, bwriwn bob oriau - ein bryd*
*Mewn breuder dda gampau,*
*Ganu gerdd heb gynnig gau,*
*Ddisynwyr rhoddi senau.*



*Cadair Eisteddfodol Caerffili 1874*

Aiff ymlaen i gyfeirio at "teg ramadeg" y beirdd "hyddysg" hynny oedd yn debyg o gystadlu, cyn troi ar ddiwedd ei gerdd i gofio bardd a fu farw yn ddiweddar, gan atgoffa ei wrandawyr:

*...Terfyn dydd sydd yn nesau,*
*Byddwn ar fyr mewn beddau.*

Bwriad y geiriau hyn, mae'n debyg, oedd i annog y beirdd i beidio ag oedi cyn cystadlu, ond heddiw maen nhw'n ein hatgoffa ni o freuder bywyd yn y dyddiau hynny. Ond mae cywreinrwydd yr iaith yn ein hatgoffa hefyd taw pobl lythrennog a diwylliedig oedd y Cymry yn y dyddiau hynny. Roedd ysgolion cylchynol Griffith Jones yn adeiladu ar sylfeini cadarn ysgolion y "Welsh Trust" a gychwynwyd gan Thomas Gouge, ac roedd Edward Lewis o Gilfach-fargod Fawr yn dilyn ffasiwn yr oes wrth sefydlu ei ysgol ef.

Mae tystiolaeth i eisteddfodau eraill yn yr ardal hon yn ystod y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a chystadlu brwd ar farddoni, canu ac ysgrifennu. Roedd tref Rhymni yn ganolfan i lawer, a gwn i eisteddfodau gael eu cynnal yno yn 1846, 1849, 1858, 1871, 1900, 1901 ac 1902. Mae'r enw "Cae'r Eisteddfod" ar ddarn o dir agored yng nghanol y dref yn dal i dystio heddiw i rym a pharhad y traddodiad eisteddfodol yno.

Roedd yr eisteddfodau lleol hyn yn dal i gael eu cynnal yn nhrefi eraill y fro hefyd. Mae tystiolaeth i eisteddfodau yng Nghaerffili yn 1906, yn Ynysddu yn 1909, ac ym Mhont-y-pŵl mor ddiweddar â 1924. Os hoffech wybod mwy, ymgynghorwch â *Beyond the Black Tips,* llyfr gwych Islwyn a Jean Jenkins: ar y wybodaeth yn y llyfr hwnnw y seiliais y sylwadau hyn i gyd.

Llyfrau'r Enfys

Cysylltwch â Vikki Pearce i archebu llyfrau, cardiau neu CDiau

**llyfraurenfys@gmail.com** **07956555265**.

Cefnogwch eich llyfrwerthwr lleol

# Colofn Siaradwyr Newydd

**Ann Lewis**

Mis Mawrth, mis Dydd Gŵyl Dewi. Amser i feddwl am Gymru a'r iaith Gymraeg. Ym mhennill olaf ein cerdd y mis yma, mae Harri Webb yn dathlu'r ffaith bod mwy o bobl yn siarad Cymraeg erbyn hyn, a mwy fyth o bobl yn rhoi parch i iaith a diwylliant Cymru. Ond cyn hynny mae'n sôn am yr holl bethau a gollon ni trwy beidio â siarad Cymraeg a pheidio â chofio ein traddodiadau, gan gynnwys y cymoedd gafodd eu boddi i wneud cronfeydd dŵr.

## Colli Iaith

Colli iaith a cholli urddas,
Colli awen, colli barddas,
Colli coron aur cymdeithas
Ac yn eu lle cael bratiaith fas.

Colli'r hen alawon persain,
Colli tannau'r delyn gywrain;
Colli'r corau'n diasbedain
Ac yn eu lle cael clebar brain.

Colli crefydd, colli enaid,
Colli ffydd yr hen wroniaid;
Colli popeth glân a thelaid
Ac yn eu lle cael baw a llaid.

Colli tir a cholli tyddyn,
Colli Elan a Thryweryn;
Colli Claerwen a Llanwddyn
A'r wlad i gyd dan ddŵr llyn.

Cael yn ôl o borth marwolaeth
Gân a ffydd a bri yr heniaith;
Cael yn ôl yr hen dreftadaeth
A Chymru'n dechrau ar ei hymdaith.

*dathlu: celebrate* *mwy fyth : even more* *parch : respect* *diwylliant : culture* *boddi : drown*
*cronfeydd dŵr : reservoirs* *urddas : dignity* *awen : poetic muse* *barddas : poetry-writing*
*bratiaith : a debased language* *persain : sweet-sounding* *tannau'r delyn : harp strings* *cywrain : skilful*
*diasbedain : resounding* *clebar brain : the chattering of crows* *enaid : soul* *gwroniaid : heroes*
*telaid : beautiful* *baw a llaid : dirt and mud* *tyddyn : a smallholding* *porth marwolaeth : death's door*
*bri : fame* *treftadaeth : heritage* *ymdaith : journey*



# Gwthryfela ym Myd y Campau

*Philip Lloyd*

Pan lwyddais yn yr arholiad 11+ yn Ysgol Gynradd y Bechgyn, Gilfach (dyna lle mae Ysgol Gynradd Gymraeg Bargod a'r cylch heddiw) yn 1943, roedd gen i ddewis o ddwy ysgol: Ysgol Ramadeg Bargod (cymysg) a'r *Lewis School for Boys* ym Mhengam.

Mae hanes hir i Ysgol Lewis. Fe'i sefydlwyd yn 1729 gan gymynrodd yn ewyllys Syr Edward Lewis, tirfeddiannwr a diwydiannwr cynnar o blasdy/ffermdy Gilfach Fargod Fawr, ar gyfer *'poor boys of the parish of Gelligaer'*. Ymhlith y rhai a addysgwyd yno oedd y Dr Phil Williams, Neil Kinnock a Jonathan Evans (AS ac ASE Ceidwadol). Er i Dr Phil gael ei fagu ym Margod, codwyd y ddau arall yng nghymoedd dwyreiniol Sir Fynwy; mae hynny'n dangos bod dalgylch yr ysgol yn eang iawn yn eu cyfnod nhw am fod iddi enw mor dda.

Agorwyd Ysgol Ramadeg Bargod fel *Higher Elementary School* yn 1911 i ychwanegu at addysg ramadeg y fro a chynnig addysg dechnegol i oedolion fin nos. Ond newidiodd ei henw yn 1920. Yno yr euthum ym mis Medi 1943, efallai am fod y prifathro J.J. Davies a'i ddirprwy, Lodwig Evans, yn flaenoriaid yn ein capel ni, Bethania (M.C.), Bargod, neu am y gallwn gerdded yno'n rhwydd o'm cartref yn Alfred Street, Gilfach – heibio i Gilfach Fargod Fawr ac ar hyd Park Crescent (stryd unionsyth er gwaethaf ei henw!). Ond doedd fy newis ysgol ddim wrth fodd Mr Arthur Wright, athro yn Ysgol Lewis a chyd-aelod gyda'm tad yng nghymdeithas gyfeillgar *The Loyal Order of Moose.*

Safai'r ysgol ym mhen uchaf Park Crescent. Ar y wal a wynebai'r stryd roedd plac o dywodfaen coch, a'r geiriau *Bargoed Secondary Grammar School* wedi'u naddu arno. Ond o edrych yn graff, gellid gweld *Higher Elementary* wedi'i ddileu yn gelfydd gan sment o'r un lliw â'r garreg cyn rhoi *Secondary Grammar* yn ei le.



*Moorland Road United, 1949-1950. Roedd Teifion ('Tiger') Harris (y cyntaf ar y chwith yn y rhes flaen) yn chwarae i dîm bechgyn YMCA Cymru dan 16 oed, ac mae'n gwisgo ei grys rhyngwladol. Dwn i ddim pam bod gan un arall yn yr un rhes grys gwahanol, na pham nad yw dau yn y rhes gefn yn eu dillad chwarae.*

Rygbi oedd yr unig gêm gaeaf i fechgyn yn ysgolion gramadeg y de. Ond roeddwn i a rhai o'm cyfoedion yn cefnogi tîm pêl-droed *Bargoed United* yng nghystadleuaeth y *SouthWales and Monmouthshire Amateur Cup* (mae'n anodd credu nad oedd sicrwydd ym mha wlad roedd y sir honno yr adeg honno). Felly, gofynnodd rhai ohonom i athrawon ymarfer corff y ddwy ysgol a gaem ni chwarae <u>ychydig</u> o bêl-droed.

Gwrthodwyd ein cais. O ganlyniad sefydlodd rhai ohonom, disgyblion o'r ddwy ysgol ramadeg, dîm pêl-droed *Moorland Road United*, wedi'i enwi ar ôl y stryd lle roedd cae *Bargoed United* (ac un pen ohono'n llawer uwch na'r llall!).

Buon ni'n chwarae yn erbyn clybiau bechgyn yn nwyrain Morgannwg a gorllewin Sir Fynwy am dymor cyfan ar ddiwedd ein blwyddyn olaf yn yr ysgol. Roeddwn i'n gôl-geidwad, am y rheswm syml bod gennyf ofn penio'r bêl (agwedd ddoeth tu hwnt, o ystyried hanes cyn-bêl-droedwyr proffesiynol sy'n dioddef o glefyd Alzheimer).

# Gwneud y Gorau o'r Gweddillion

Mae holl wledda'r Nadolig a'r Calan wedi hen orffen erbyn hyn, a ninnau ynghanol yr hirlwm sy'n dilyn. Yn ôl yr arbenigwyr, mis Chwefror yw'r mis gwaethaf yn y flwyddyn i bobl sy'n dioddef o iselder, ac rwy'n siŵr ei fod yn fis anodd i bob un ohonom: Nadolig yn bell yn y gorffennol, a hwyl a hindda haf ymhell yn y dyfodol. Ac ar ben hynny, dyma ni ar ddechrau tymor y Grawys a thraddodiad yn mynnu ein bod yn ymwrthod â danteithion o bob math - gan gynnwys siwgr, wyau a menyn. Dyna'r rheswm dros fwyta ffroes ar Ddydd Mawrth Ynyd - clirio'r pethau da hyn i gyd allan o'r gegin yn barod ar gyfer deugain niwrnod o ympryd.



Roedd darganfod hanner potyn o friwgig (*mincemeat*) Nadolig yng nghefn yr oergell yn ychwanegu at fy nheimlad o ddiflastod canol gaeaf. Pwy fyddai am fwyta mins pei yr adeg hon o'r flwyddyn? Beth yn y byd y gallwn ei wneud gyda'r gymysgedd o ffrwythau, sbeis, braster a siwgr sydd yn sychu a chrebachu yn y potyn? Gas gen i daflu bwyd, ond roedd yn gasach gen i feddwl am fwyta hwn. Ar ben hynny, des i o hyd i weddillion torth o fara, wedi sychu a chrebachu hefyd... ych-a-fi!

Ond yna cefais syniad: roedd ffrind yn arfer gwneud pwdin baramenyn blasus gyda llaeth, wyau, bara menyn a marmalêd. Oni fyddai'r hen friwfwyd yn gwneud y tro yn lle'r marmalêd, a'r bara sych yn lle'r bara ffres fyddai hi'n ei ddefnyddio?

Felly, dyma fi'n mynd ati i greu rhywbeth blasus o weddillion y gwledda Nadoligaidd. Iro dysgl addas yn gyntaf, yna daenu menyn ar y darnau o fara, a rhoi digon o friwgig arnynt wedyn. Y cam nesaf oedd taenu nytmeg drostynt, a'u rhoi fel brechdanau yn y ddysgl, gan ychwanegu ychydig o siwgr hefyd. Wedyn curais ddau wy a'u hychwanegu at hanner peint o laeth a churo'r gymysgedd yn dda. Arllwysais hynny dros y bara yn y ddysgl, ei roi yn y ffwrn (180/Nwy 4) - a mynd am dro cyn iddi dywyllu.




Des i adre mewn deugain munud, a mynd i'r ffwrn. Dyna oedd pwdin poeth perffaith yn disgwyl amdanaf. Tynnu'r llenni wedyn yn erbyn tywyllwch y nos ac eistedd yn gyfforddus wrth y ford i fwynhau'r wledd fach hon. Roedd clywed sŵn gwynt a glaw Chwefror y tu allan yn ychwanegu'n sylweddol at y blas.

## Gwthryfela ym Myd y Campau (parhad)

Felly, pan gefais fy nerbyn i Goleg Normal Bangor i'm hyfforddi i fod yn athro ar ôl dwy flynedd o wasanaeth gorfodol yn yr Awyrlu, rhoddais fy enw i fod yn gôl-geidwad yn y prawf pêl-droed. Fy nhaldra yw pum troedfedd, chwe modfedd a hanner. Ond pan ddeallais mai myfyriwr chwe throedfedd o'r Fflint oedd y gôl-geidwad arall, troais at rygbi a bachu dros dîm y coleg am ddwy flynedd er gwaethaf fy niffyg profiad. Cofiaf yn dda i Llywelyn Morgan Rees, y darlithydd ymarfer corff, weiddi arna i'n ymarfer un tro: '*Lloyd* [nid '*Mr Lloyd'* fel y byddai'r darlithwyr eraill yn ei ddweud]*, I do not regard you as the complete rugby player'*. Atebais: *'Neither do I, Mr Rees'*. Ond doedd e ddim yn gwybod am *Moorland Road United*!

# Tawelfryn a Delilah



*William Williams*

Bu'r papurau, yn ddiweddar, yn llawn o hanes Undeb Rygbi Cymru yn gwahardd canu'r gân boblogaidd "Delilah" yn ystod gemau rygbi rhyngwladol yn Stadiwm y Principality. Y ddadl oedd bod sentiment y gân ac, yn fwyaf perthnasol, y geiriau treisgar "*....... and she saw the knife in my hand, and she laughed no more"* bellach yn anaddas, yn enwedig o gofio'r beirniadu fu ar yr Undeb.

Wrth redeg y stori hyd at syrffed gan geisio barn gan "ym mhob pen mae piniwn", daeth ein "papur cenedlaethol" i fyny â'r syniad o wrthgyferbynnu ymdrech y canwr o Bontypridd ag emyn William Williams, Pantycelyn, (1717-1791) i'r emyn dôn "Cwm Rhondda", *"Guide me O Thou great Jehovah".* Y pwynt oedd mai'r emyn, yn nhyb y gohebydd, oedd yn cystadlu yn erbyn "Delilah" am leisiau'r dorf. Cafodd y papur gryn hwyl wrth fynd ar y trywydd yma a mynd mor bell a dod o hyd i un o ddisgynyddion "Yr Hen Bant", chwedl Hywel Teifi. Ond methodd y newyddiadurwr yn ei ymchwiliadau dwrio'n ddigon pell. Petai wedi edrych yn bellach byddai wedi dod o hyd i gysylltiad rhwng Pantycelyn a Chaerffili. Neu, a bod yn fwy manwl gywir, y cysylltiad â'r Groes-wen.

Wrth deithio i fyny Rhiw Nantgarw o'r A470, oediwch wrth y goleuadau cyntaf a gwelwch mai "Tawelfryn" yw'r ystad o dai cyngor ar yr ochr chwith. "Tawelfryn" - Bryn Tawel? Prin! A'r tai wedi'u codi yng nghysgod ffatri atgyweirio peiriannau awyrennau! Beth, felly, yw arwyddocâd yr enw? Yn syml, enwyd y tai er cof am y Parchedig Tawelfryn Thomas, gweinidog y Groes-wen droad y ganrif o'r blaen.

Roedd yn byw ar adeg pan oedd pregethwyr, yn enwedig y rhai oedd yn feirdd neu'n pregethu yn danbaid, yn dipyn o arwyr, megis Caledfryn. Ond, lle mae sôn am y gweinidog neilltuol hwn yw pan fu'n gweinyddu ar ddioddefwyr tanchwa Senghenydd. A hynny, fwy na thebyg, adeg trychineb 1901 yn hytrach nag un 1913, am nad oedd capeli wedi'u sefydlu bryd hynny gan na suddwyd y pwll a roddodd fodolaeth i'r pentref, tan 1893/94.

Mae disgynyddion Tawelfryn yn dal i gefnogi'r achos yn y Groes-wen. Aelod cyfoes y teulu yw Vaughan Roderick, gohebydd gwleidyddol y BBC. Mae Vaughan yn cynnal oedfaon yno ac wedi hyrwyddo'r achos i achub yr adeilad ar hyd y blynyddoedd. Ei dad-cu oedd Y Parchedig T.M. Roderick, mab yng nghyfraith Tawelfryn a disgynydd i Bantycelyn. Efallai bod diddordeb gennych yn y ffaith mai Thomas Roderick fedyddiodd fi yn 1944 – er efallai nad oes gennych ddiddordeb yn hynny, chwaith!

Mwy diddorol yw hanes mab Thomas Roderick, a thad Vaughan, sef Selwyn Roderick. Bu Selwyn yn gynhyrchydd gyda'r BBC am flynyddoedd cyn mentro mynd ati i gynhyrchu ffilmiau a rhaglenni yn annibynnol. Selwyn fu'n rhannol gyfrifol am y rhaglen deledu boblogaidd, "Songs of Praise", yn 1961 ac o gapel y Tabernacl, Caerdydd, y darlledwyd y rhaglen beilot. Bu'r rhifyn arbrofol yn llwyddiannus a phenderfynwyd gwneud cyfres ohoni. Yn y trafodaethau ynglyn â datblygu'r syniad, holodd rhywun a ddylid newid y teitl. Ond ateb sydyn Selwyn, mae'n debyg oedd, "Na, cawn gadw fe yn y teulu". A sail hyn yw'r ffaith mai cyfieithiad o un o emynau Pantycelyn yw'r fersiwn o "Gwm Rhondda" a genir yn Saesneg, "*Songs of Praises I Will Ever Give To Thee*." Fodd bynnag, geiriau Ann Griffiths a genir gennym yn y Gymraeg, "Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd".

Fferm y tu allan i Lanymddyfri yn Sir Gaerfyrddin yw Pantycelyn, cartref y Pêr Ganiedydd, fel y caiff ei alw. Wrth ddilyn y ddadl ynglŷn â "Delilah" *v* "Cwm Rhondda" cofiwn felly am y cysylltiad ag ardal "Cwm*ni".*


*Ben Jones*

# Ein Hanes *Ni* - 6

## Castell Caerffili (c.1271)

Dechreuwyd adeiladu'r castell gan Gilbert de Clare tua 1268 ac erbyn hyn hwn yw'r mwyaf ond un yn Ewrop, yn ail ond i gastell Windsor. Yn ogystal â'i faint, mae'n cynrychioli un o'r esiamplau gorau sydd mewn bod o amddiffynfeydd consentrig fel y gellir gweld gyda ffos a mur gwarchod bob yn ail.

I ddeall y rheswm dros godi castell yng Nghaerffili mae'n rhaid mynd yn ôl i oresgyniad y Normaniaid. (Er bod gan y Rhufeiniaid gaer yma fil o flynyddoedd yn gynharach.) Fe lwyddodd y Norman goncro'r tir gwastad ger y môr ond peth arall oedd delio â'r Cymry yn eu cadarnleoedd yn y mynyddoedd. Rhennid cantref Senghennydd, rhwng Taf a Rhymni, i dri chwmwd a Chibwr. Nant Caiach, sydd yn rhedeg ochr yn ochr â'r heol o Ystrad Mynach i Nelson oedd y ffin rhwng is ac Uwch Caiach. Cibwr oedd lle mae Caerdydd erbyn hyn ac a oedd dan lywodraeth y Normaniaid, tra roedd Is ac Uwch Caeach yn nwylo'r Cymry. Ac roedd Caerffili, wrth gwrs, yn agos i'r ffin rhwng Cibwr ac Is Caeach. Cododd Gilbert de Clare y castell am ei fod yn ofni'r gynghrair rhwng Llywelyn ap Gruffydd Ein Llyw Olaf a Gruffydd ap Rhys, arglwydd Senghennydd. Dinistriwyd y castell newydd rhwng yr 11eg a'r 13eg o Hydref 1270 ond ni fu de Clare yn hir cyn ennill Is Caeach nôl ac adeiladu ail gastell.





Mae castell yng Nghaerffili
A gwely plu i gysgu
A lle da i whare wic
Wrth gefen Piccadilly.

*Capel y Wesleyaid yn Castle Street a adeiladwyd yn 1865 ond a ddymchwelwyd yn 1929 er mwyn gallu adeiladu clawdd ar gyfer llenwi ffos y castell.*

Dadfeilio'n araf fu hanes y castell tan y ganrif ddiwethaf â'r cerrig yn mynd i adeiladu nifer o dai o gwmpas y dref. Yna, sylweddolwyd bod gwerth hanesyddol cynhenid i'r hen furddun ac aethpwyd ati i gynnal eisteddfodau a digwyddiadau eraill yn y Neuadd Fawr.

Penderfynodd Ardalydd Bute fuddsoddi yn y safle. Roedd yntau, erbyn hynny, wedi gwneud elw mawr ar gefn y diwydiant glo a'i ddociau yng Nghaerdydd. Roedd digon o fodd ganddo, felly, i fynd ati i ddymchwel tai, siopau tafarn a chapel ar ochr ddwyreiniol y castell, sef Market St a Castle Street. Wedyn ail godwyd clawdd rhwng y castell a'r dref a llenwi'r ffos â dŵr o nant Gledyr. Ynghyd â nifer o welliannau eraill o eiddo'r Ardalydd, cyrff cyhoeddus a grŵp o'r enw Ffrindiau Caerffili mae'r castell, bellach dan berchnogaeth CADW, yn atyniad sylweddol ac yn destun balchder i drigolion y dref.



Dydd Sadwrn,
18fed o Fawrth

**CLWB CERDD CWM RHYMNI**
Rhif Elusen: 1089092

2:30

Canolfan Gristnogol Seilo, Ystrad Mynach

*Mary Hoffman(fiolin)Richard Ormrod (piano)*

# Menter Iaith Sir Caerffili

# Digwyddiadau Mawrth 2023

## CLWB CERDDED

10:00 - 12:00

**Chwefror 8 February 2023**
**Mynydd Caerffili -** Cwrdd ym maes parico Snack Bar Mynydd Caerffili
*Meet at Caerphilly Mountain Snack Bar Car Park* **CF83 1JA**

**Chwefror 15 February 2023**
**Llwybrau'r Fan Vann *Road Trails* -** cwrdd yn y maes parcio isaf/
*Meet at* lower car park
**CF83 3DB**

**Chwefror 22 February 2023**
**Llanbradach, Mynydd Dimlaith** -Cwrdd gyferbyn Caffi Savera/
Meet opposite Cafe Savera
**CF83 3JZ**

**Mawrth 1 March 2023**
**Fforest Cwmcarn-** cwrdd ym maes parcio y Ganolfan Ymwelwyr
*Meet in the Visitors Centre car park* **NP11 7FA**

**Mawrth 8 March 2023**
**Rhydri** Cwrdd ym maes parcio Y Maenllwyd
Meet at The Maenllwyd Inn **CF83 3EB***

***Cyfarfod trefnu teithiau nesaf ar y diwedd***

**Rhaid gwisgo esgidiau cerdded addas**
***You must wear suitable footwear***

lowrijones@mentercaerffili.cymru
01443 820913

Rhif elusen gorestredig: 1105172 Rhif cwmni: 5096968

## Menter Iaith Sir Caerffili

## SADYRNAU SIARAD 2023

Ionawr-Mawrth 2023

10:00-12:00

**Ionawr 28 *January* @ Yr Hen Lyfrgell, Caerffili**
Heol Nantgarw/Nantgarw Road, Caerffili, CF83 1AP

**Chwefror 25 *February* @ Neuadd Y Pentre Argoed,**
**Argoed Village Hall,** Argoed, *NP12 0AN*

**Mawrth 25 *March* @ Capel Penmaen Chapel**
Oakdale Terrace, Penmaen , Oakdale ,
Coed Duon , NP12 ODH

**Croeso mawr i bawb - *Everybody Welcome***

kirabissex@mentercaerffili.cymru
01443820913

RHIF ELUSEN GORESTREDIG: 1105172
RHIF CWMNI: 5096968

## CLWB MIRI

**Boreau Gwener** - *Friday Mornings*

10:00-11:30

**@ Canolfan Gristnogol Siloh**
Siloh *Christian Centre*, Ystrad Mynach

**Sesiwn hwyl drwy'r Gymraeg i blant 0 - 3 Oed**
**yn cynnwys diod a byrbryd a phaned i'r rhiant / gwarchodwr**
*A fun session through the medium of Welsh for Children Aged 0-3 years*
*Includes a drink and snack and a drink for parents / guardians.*

£1 **Talu ar y drws**
*Pay on the door*

**am fanylion pellach / for further details :**
kirabissex@mentercaerffili.cymru

## Menter Iaith Sir Caerffili

## SESIYNAU SGWRS

Bore Coffi agored - Open to all Coffee morning
Dydd Mawrth 10:00-12:00 Tuesdays
@Coffi Vista Caerffili

Bore Coffi agored - Open to all Coffee Morning
Dydd Iau 10:30-12:30
@ Wetherspoons Coedduon

Sadwrn Siarad fisol - Monthly Saturday chat
Dydd Sadwrn olaf pob mis - Last Saturday each month
10:00-12:00
@ Lleoliadau amrywiol - Loctions vary monthly

bethanjones@mentercaerffili.cymru
01443820913

WWW.MENTERCAERFFILI.CYMRU